**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

**CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 13 AWST 2015 YN NHŶ HASTINGS.**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; a, Mr David Powell.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr Tom Jenkins (Swyddog Arolygon); a Miss Caroline Roe (Cynorthwyydd Swyddfa);

**Ymddiheuriadau:** Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr David Carr (Rheolwr Cyllid); a Mr Ralph Handscomb (Swyddog Arolygon);

**Amser dechrau: 09:30**
**Amser gorffen: 11:00**

**1. Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau.

**2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

2.1 Croesawyd Mr Daniel Mosley gan y Cadeirydd. Cafodd Daniel ei benodi yn Swyddog Arolygon yn y Comisiwn o fis Awst 2015.

2.2 Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai ymgynghoriad ar y cyfarwyddyd drafft a roddwyd i'r Comisiwn gan y Gweinidog yn dechrau wythnos nesaf.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2015**

3.1 **Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2015.

**4. Materion yn Codi**

4.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 24 Gorffennaf gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2 **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd, a nodwyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- (Mater 17) Cyfarfod Rhwng Comisiynau – **Penderfynwyd** y byddai'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a dau Gomisiynydd arall yn mynychu'r cyfarfod ym mis Tachwedd. Byddai'r Cadeirydd yn trafod presenoldeb yn y cyfarfod gyda'r Comisiynwyr. **Steve Halsall/ Comisiynwyr**

- (Mater 18) Safonau'r Gymraeg – Y Prif Weithredwr i drefnu cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru i drafod amheuon y Comisiwn ynglŷn â'r Safonau. **Steve Halsall**

- (Mater 20) Buddsoddwyr mewn Pobl – Bydd cyfweliadau Buddsoddwyr mewn Pobl yn cael eu cynnal yn Swyddfa'r Comisiwn ddydd Mawrth 18 Awst. **Steve Halsall**

- (Mater 21) Arolwg ar ôl Arolwg RCT – Gan mai cynigion y Cynghorau oedd y cynigion, a'r diffyg cynrychiolaethau a wnaed i'r Comisiwn yn ystod yr arolwg, ni fydd holiadur ôl-arolwg yn cael ei gyhoeddi yn yr achos hwn.

- (Mater 22) Gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd – bydd papur yn cael ei roi gerbron cyfarfod y Comisiwn ym mis Medi a byddwn yn adolygu'r broses Sicrhau Ansawdd ar gyfer adroddiadau a gyhoeddir gan y Comisiwn. **Matt Redmond**

- (Mater 23) Cyfathrebu o ran y Rhaglen Arolygon – Bydd angen trefnu cyfarfod gydag Un Llais Cymru, Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru a CLlLC yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cyfarwyddyd drafft a roddwyd i'r Comisiwn gan y Gweinidog. **Steve Halsall**

- (Mater 24) Mynediad y Cyhoedd at Wybodaeth – i'w gyhoeddi **Steve Halsall**

## 5. Adroddiad Blynyddol 2014-15

5.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 24 Gorffennaf 2015 gan y Prif Weithredwr.

5.2 Roedd yr Adroddiad eisoes wedi'i ystyried yng nghyfarfod mis Gorffennaf, fodd bynnag, mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys crynodeb o'r datganiad cyfrifon ar gyfer 2014/15 a gytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 22 Gorffennaf 2015.

5.3 **Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau.

## 6. Rheoli Risg

6.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 3 Awst 2015 gan y Rheolwr Cyllid.

6.2 **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn, a bod y risg CR8 newydd wedi'i chynnwys.

6.3 **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn rannu'r risg hon, CR8 fel Risg Generig yn ymwneud â'r brydles yn dod i ben yn 2017, a CR9 fel Risg Ddatblygol i'r Comisiwn gyda'r gwaith arfaethedig i ailddatblygu Llys Fitzalan.

6.4 **Cytunwyd** i ddileu risg CR5 o'r Gofrestr Risgiau.

6.5 Cynigiodd y Prif Weithredwr fod yr holl ddyddiadau dod i ben ar gyfer contractau yn cael eu rhoi ar galendr sy'n cael ei rannu, er mwyn lliniaru unrhyw risgiau ynglŷn ag adnewyddu contractau neu gontractau yn dod i ben.

6.6 **Penderfynodd** y Comisiwn i gytuno'r Gofrestr Risgiau yn amodol ar y diwygiadau uchod. **Gweithredu : Rheolwr Cyllid**

## 7. Adroddiad am y Gyllideb

7.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 1 Awst 2015 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2 Nododd y Comisiwn sefyllfa'r gyllideb hyd at ddiwedd mis Gorffennaf 2015 a'r tanwariant a ddigwyddodd yn bennaf yn sgil y swydd staff sy'n dal yn wag, er y dylai penodi Swyddog Arolygon newydd sy'n dechrau ar ei waith ym mis Awst leihau'r tanwariant.

7.3 **Nododd** y Comisiwn yr Adroddiad am y Gyllideb.

## 8. Adroddiad ar y Cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2015

8.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 4 Awst 2015 gan y Rheolwr Cyllid.

8.2 **Nododd** y Comisiwn gofnodion y cyfarfod a chanlyniad cadarnhaol yr archwiliad allanol.

## 9. Adroddiad Cynnydd Arolygon

9.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 5 Awst 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

9.2 **Nododd** y Comisiwn sefyllfa bresennol yr arolygon cymunedol sy'n cael eu cynnal; Cyhoeddwyd RhCT ym mis Gorffennaf, mae Sir y Fflint yn destun proses Sicrhau Ansawdd, bydd Papurau ar gyfer arolygon Caerdydd a Chastell-nedd Port Talbot yn cael eu hystyried yng nghyfarfod mis Medi, Nid oedd y Comisiwn wedi gallu cysylltu â Bro Morgannwg.

9.3 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at Fro Morgannwg i gael ymateb.

9.4 **Nodwyd** yr adroddiad. **Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr**

## 10. Calendr Digwyddiadau

10.1 Gwnaeth y Comisiwn ychydig o ychwanegiadau at y calendr o dan weithgareddau'r ysgrifenyddiaeth:

- 08/09/2015 – mynychu cyfarfod gyda'r AEA
- 15/09/2015 – mynychu cyfarfod gyda Swyddogion Sir Benfro
- 07/11-08/11 - y Prif Weithredwr i fynychu'r Uwchgynhadledd Gwasanaethau Cyhoeddus.

10.2 **Nodwyd** y calendr gydag ychydig o ddiwygiadau.

**11. Unrhyw Fusnes Perthnasol arall**

11.1 Rhoddodd y Prif Weithredwr adborth i'r Comisiwn yn dilyn y cyfarfod gyda datblygwr Morlyn Bae Abertawe ar 23 Gorffennaf. Trafododd y Comisiwn y gost o gael cyngor cyfreithiol arbenigol ar y materion yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth.

11.2 Trafododd y Comisiwn y posibilrwydd o adnewyddu'r brydles yn Nhŷ Hastings ac mae wedi awgrymu estyniad pum mlynedd i'r brydles gyda chymal terfynu ar ôl tair blynedd. Hefyd, trafododd y Comisiwn restr o adeiladau gwahanol a ddarparwyd gan adran ystadau Llywodraeth Cymru, a **Phenderfynwyd** y byddai'n rhaid llunio Manyleb Gytûn ar gyfer unrhyw adeilad newydd posibl.

**12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth, 22 Medi 2015**